# TABL

I'R

# TESTAMENT NEWYDD,

AR

## *FESUR CERDD,*

YN OL YR

## Egwyddor, neu'r A, B, C.

CAERFYRDDIN, ARGRAFFWYD AC AR WERTH GAN WATKINS A LLOYD, HEOL-Y-PRIOR 1809.

[*Pris Dwy Geiniog.*]

PEN. MATTHEW.

1 AM Achau'n gwir Iachawdwr
Rhydd Matthew Gyfrif 'mas
2 Ei 'ddoli gan y Doethion:
A'i ddwyn i'r Aipht, (waith † cas.) † *Casineb Herod.*
3 Gan Ioan fe fedyddiwyd.
Fe dystiwyd yn Fab Duw.
4 Ei Demtio gan y Diafol;
A'i Bregeth wresog wiw.
5 Bendithion mae'n gyhoeddi:
A'r Ddeddf mae'n eglurhau
6 Am Ympryd a Gweddio,
Ac Elusenau i'w rhoi.
7 Am beidio barnu'n ehud:
A gochel Bleiddiaid cas.
8 Crist yn tawelu'r Storom,
A bwrw'r Diawl i mas.
9 Cawn yma alwad Matthew:
Merch Jairus mae'n fywhau.
10 Y Deuddeg y mae'n ddanfon
A Gallu i Iachau.

11 Mae Io'n yn danfon ato,
Ac yntau'n canmol Io'n.
12 Am dori'r Sabbath sanctaidd
Yn helaeth iawn mae'n sôn.

13 Damhegion ydyw'r cwbl
Osodir yma i lawr;
14 Barn Herod am ein Harglwydd:
Cadd Io'n Ddienydd mawr.
15 Ffydd gref y Wraig o Ganaan;
Beth sy'n halogi Dyn:
16 A Chyffes Pedr hefyd:
Rhaid dwyn y Groes bob un.

17 Elias sy' a Moses
Yn ymddiddan gydâ Christ.
18 Mae ef yn ein Rhybuddio
Ochelyd Rhwystrau trist:
19 Mae'n traethu am yscariaeth:
I'w Freichiau derbyn Plant.
20 Y Gweithwyr yn y Winllan;
A'r Geiniog bawb a gant.

21 Ffigysbren mae'n felldithio:
Ar Asyn marchog wnai.
22 Priodas: Talu Cæsar
Ei Deyrnged, heb nacau.
23 Wyth Wae mae fe'n gyhoeddi,
Yn erbyn Pharise'd.
24 Mae'n sôn am Ddystryw'r Deml,
A Diwedd hyn o Fyd.

25 Gwelwch y Deng Morwyn:
Talentau a Dydd Brawd.
26 Crist yn ordeinio ei Swper:
Ac ei fradychu wnawd.
27 Mae Pilat yn ei brofi,
Ac yno ei grogi wrth Bren,
28 Y Trydydd Dydd cyfododd:
A * thyna ei Air i ben, * *Ioan* 2. 19.

## PEN. MARC.

1 AM Fedydd Crist a'i Demtiad
Mae Marc yn traethu'n hy.
2 Mae Arglwydd ar y Sabbath
Yw ef, fe dd'wed i ni.

X205 248240 CH 560

3 Iachaodd y llaw wywedig:
Cythreuliaid bwriai maes:
4 Y Ddammeg am yr Hauwr:
A'r Mwstard poeth ei Flas.

5 Bywhaodd Ferch o farw:
A bwriodd Leng i maes,
6 Er hyny fe ddibrisiwyd
Gan rai o'i Wladwyr cas.
7 Mae'n agor clustiau'r byddar,
Ond d'wedyd Ephatha,
8 A phedair mil o ddynion
Saith torth a'u porthai'n dda.

9 Cadd ysbryd mud a byddar
Ei fwrw maes gan Grist,
10 I feibion Zebedeus
Mae'n rhoddi atteb trist,
11 Yn gyru'r Cyfnewidwyr
O'r deml ffwrdd i bant,
12 Y winllan logwyd allan
I weithwyr drwg eu chwant.

13 Dystryw'r deml fawr-wych,
Ac ail ddyfodiad Crist,
14 Tair gwaith fe'i gwadai Pedr;
A chwed yn wylai'n drist,
15 Ei watwor, a'i groeshoelio,
A i gladdu gydâ bri,
16 Cyfododd, ac esgynodd
I eirjol drosom ni.

PEN. LUC.

1 AM dan Genhedliad Iesu
Mae 'Fengyl Luc yn sôn
2 Ac am ei Enedigaeth:
Prophwydodd Simeon,
3 Ei oed, a'i achau uchel:
O ochor Joseph fwyn,
4 Ei weinidogaeth gyhoedd:
A'i demtiad er ein mwyn.

5 Bu iddo alw allan
Ddysgyblion ar ei ol

6 Pregethodd am ddedwyddwch:
Ond Gwae'r pechadur ffol,
7 Canmolodd y Canwriad:
Rhows Fab o farw'n fyw,
8 Mae Gwragedd o'u meddiannau
Yn gweini i Fab Duw.

9 Crist yma a wedd-newidiwyd:
Iachaodd y Lloerig nych,
10 Danfonodd ddeg a thrugain,
I wneuthur Gwyrthiau gwych.
11 Y Phariseaid am gabledd
Y mae e'n feio'n fawr
12 A'r ynfyd oedd am dynu,
Ei hen 'Sguboriau lawr.

13 Declaro mae e'r Eisiau
S' ar bawb 'ddifaru'n siwr,
14 Gorch'mynodd ostyngeiddrwydd:
A Chiwro'r dropsi ddw'r,
15 Y ddafad a gollesid:
A'r Mab Afradlon gynt:
16 Y Stiward drwg anghyfiawn:
A Deifes ffol ei hynt.

17 Eirch faddeu i'n Gelynion
Bob camwedd, Llid, a bar,
18 Y Publican a'i weddi:
Ac am y weddw daer,
19 Zacheus druan yn dringo
Sycamorwydden fry,
20 Mae'n profi'r Adgyfodiad
I'r Saduce'd yn hy.

21 Ffyrlling fach y weddw
Yn cael canmoliaeth fawr,
22 Gweddi Crist a'i Swper,
A Phedr gwadai'n awr,
23 Y Lleidr yn Mharadwys,
Yn hyfryd iawn ei le,
24 Crist yn Adgyfodi:
A * phawb a'i gwelsant e'. * *O'r apostolion*, adn. 33.

Pen. IOAN.

1 AM Dduwdod Crist a'i Ddyndod
Y mae Efengyl Io'n:

2 Am ddwfr drodd yn win,
Y mae ef nesa' yn sôn.
3 Mae'n profi Nicodemus
Un * anwybodus dall. * *Yn yr Athrawiaeth o Adgenhed-*
4 Dychwelodd rai Samariaid : [*liad.*
I gredu ei eiriau call.

5 Bethesda oedd Lyn ragorol,
Ac iddi bump o Byrth.
6 Crist yw bara'r Bywyd,
Yr hwn o'r Nefoedd syrth.
7 Mae'n myn'd i ŵyl y Pebyll
Yn gwahodd ei wyr yn nghyd.
8 Arbedai'r odinebus,
I fyw yn hŵy'n y byd.

9 Ca'dd dyn oedd ddall o'i Febyd,
Gan Grist ei olwg lon:
10 Bugail yw i'w Eglwys,
A drws y Gorlan hon.
11 Efe gyfododd Laz'rws,
Oedd farw ys pedwar dydd:
12 Doe gwerin fawr i weled:
Ni wnaed mo'r peth yn nghudd.

13 Dysgodd Ostyngeiddrwydd
I bawb trwy olchi * Traed, * *Traed ei Ddysgyblion.*
14 Gwirionedd yw, a bywyd,
A'r ffordd fyn'd at y Tad.
15 Gwinwydden ffrwythlon yw ef,
Canghenau ydym ni.
16 Rhydd gysur i'w Ddysgyblion:
Am rym Gweddiau * fry. * *Yn y Nef.*

17 Efe weddiai'n hyfryd
Dros bawb o'i ddefaid pur:
18 Tair gwaith fe'i gwadai Pedr,
Rhag ofon goddef cur.
19 Wrth farw mae'n gorchymmyn
Ei fam i ofal Io'n.
20 Am anghrediniaeth Thomas
Mae'r bennod hon yn sôn,
21 Gorch'mynai i Bedr borthi
Ei ŵyn a'i ddefaid mân.

PEN. ACTAU.

1 ACTAU'r Apostolion:
Esgynodd Crist i'r Nef,
2 Yr Ysbryd Glân yn disgyn,
A chlywed amryw lef.
3 Wrth Air o enau Pedr
Mae'r cloff yn cael iachad,
4 A'r weithred hon sy'n digio'r
Iuddewon llawn eu brad.

5 Bu farw Ananias
A'i wraig am gelwydd cas:
6 Mae saith o Ddiaconiaid
Yn cael eu tynu mas:
7 Mae Stephan bur yn pledio,
Ond ei ferthyru wna'd.
8 A Simon yn cael cerydd
Am feddwl brwnt a brad.

9 Ca'dd Saul ei droi'n bregethwr;
A chodi Dorcas wnaed;
10 Cornelius y canwriad
Yn Gristion cywir troed:
11 Doe'r enw Cristion gyntaf
O Antiochia ma's.
12 Gwaredoedd Angel Bedr
O'i frwnt Garchardy cas.

13 Doe Elymas y swynwr
I dd'wedyd yn erbyn Paul;
14 Llabyddio Paul yn Lystra,
'Doedd dim Tosturi i'w gael,
15 Ymryson yr Enwaediad,
Rhyw Gwestiwn mawr oedd hwn,
16 Ca'dd ceidwad y carchardy
Ei droi, a'i deulu'n grwn.

17 Ei bregeth i'r Atheniaid,
A'i Ymresymiad gwiw.
18 Apollos yn pregethu
Er mawl i enw Duw.
Curo y consurwyr:
19 Demetrius y gof aur.
Ac Eutychus a gwympodd,
20 O farw'n fyw a geir.

21 Ffeindio Paul a'i ddala
22 Yn Nghaersalem gyntaf oll.
Mae'n traethu'r modd y galwyd
Ef gynt rhag myn'd ar goll.
23 Gosodwyd cynllwyn iddo,
Ca'dd Ffelics ef ger bron:
24 Paul yn pregethu iddo,
Lle cafodd fraw gan * hon, * *Y Bregeth hon.*
25 Ger bron ardderchog Ffestus
Mae'n pledio: ei appel:
26 Pregethodd i Agrippa
Y pethau wnaed heb gel.
27 Mae'n morio tu a Rhufain,
Peryglus iawn fu'r daith,
28 Ac yno yn pregethu'r
Wir ffydd ddwy flynedd faith.

PEN. **RHUFEINIAID.**

1 AT Roegiaid mae e'n danfon
Am eu pechodau cas.
2 Pechodau yr Iuddewon
Sy' waeth a mwy diras.
3 Iuddewon megis Groegiaid
Mae'r ddeddf yn feio'n fawr.
4 Mae ffydd achubodd Abr'am
Osodir yma i lawr.
5 Bywyd o Grist Iesu:
Ond Angeu o Adda ddaeth,
6 Rhaid i ni farw i bechod,
Na'n llusger ganddo'n gaeth.
7 Trwy'r ddeddf mae 'nabod Pechod;
Cyfiawn yw hi a da.
8 Oddiwrth y llid sy'n dyfod,
Crist Iesu a'n rhyddha:
9 Cael melldith, Paul ddymunai,
Yn achos Gwyr ei wlad.
10 Cyfiawnder sydd o'r Gyfraith.
A'r * llall o ffydd ddiwad. * *Y Cyfiawnder arall.*
11 Israel a syrthiasant:
Mae'u Galwad etto'n ol.
12 Mae'n cymmell dyledswyddau:
Ni 'mddial neb ond ffol.

13 Da parchu'r Awdurdodau,
A phawb yn ol eu lle.
14 Mewn pethau sy' ganolig
Na fyddwch dyn, medd e'.
15 Mae'n rhaid i'r cryf ddyoddef
Yr Egwan yn y ffydd:
16 Ar ol Anerchion lawer,
Mae'n diolch i Dduw yn brudd.

## Pen. I. CORINTHIAID.

1 AR ol Cyfarchiad hygar
Arch iddynt fyw'n gytun.
2 Mae'i Bregeth e'n odidog
Uwchlaw Doethineb Dyn.
3 Ni ddichon Paul ond planu:
Duw rydd y Cynnydd hael:
4 Mae'n dangos Bri Eglwyswyr,
A'r Parch a ddylent gael.

5 Beio'r Godinebus,
A'i Esgymuno ma's.
6 Ymgedwch rhag y Gyfraith,
A ffol Gynhenau cas.
7 Mae'n cryfwyll am Briodas,
Ac am Wyryfdod glân
8 Rhaid cadw rhag Eulunod,
A'u holl Aberthau mân.

9 Cynhaliaeth sy' ddyledus
I Weinidogion Duw.
10 'Roedd Sacramentau Israel
I ni'n Gysgodau gwiw.
11 Am dan y Swper Sanctaidd
Mae'n traethu'n helaeth iawn.
12 'Roedd amryw Ddoniau Ysbrydol
O les a Defnydd llawn.

13 Doniau gwych heb Gariad.
Medd Paul, ni thalant ddim:
14 Mae'n d'weyd am Brophwydoliaeth,
A chymmaint yw ei grym.
15 Mae'n profi'r Adgyfodiad,
Y dull a'r modd y bydd.
16 Am gymmorth i'r anghenog,
A'r rhai mewn eisiau sydd.

## PEN. II. CORINTHIAID.

1 AM ei Lawenydd dywed,
Ac am ei gystudd blin:
2 Mae'n d'wedyd am heddychu
A'r Godinebus Ddyn,
3 Yr Efengyl sy'n egluro
Y peth oedd dywyll gynt.
4 Mae Paul yn cael ei flino
Gan Ddynion drwg eu hynt.

5 Byw mae Paul mewn Gobaith
A Sicrwydd am y Nef;
6 Mae'n profi ei Weinidogaeth:
Hon a dderbyniodd ef.
7 Yn cymmell y Corinthiaid
I Fuchedd Dduwiol Lân.
8 Am fod yn Elusengar
Esampl Crist a gan'.

9 Cyffelyb yw Elusen
I hauad had mewn ma's.
10 Diystyru ei bresennoldeb,
Mae gau ddyscawdwyr cas.
11 Mae'n gorfod gwneuthur ymffrost,
Yn erbyn ewyllys glir.
12 Yn beio y Corinthiaid,
Am roi iddo hyn o gur.
13 Yn bygwth, oni wellent,
Eu cosbi cyn b'o hir.

## PEN. GALATIAID.

1 AM adael yr efengyl
Rhydd Paul Geryddon tost;
2 Mae'n argyhoeddi Pedr
Am rodiad drwg difost.
3 Fe gyfiawnhawyd Abra'm
Trwy ffydd yn Iesu Grist,
4 Jerusalem oddi uchod,
Lle na bydd neb yn drist.

5 Byddwch yn eich rhydd-did
A sefwch ynddo'n lew.
Crist a'ch gwnaeth yn rhyddion
Na fydded arnoch fraw.

6 Mae'n dangos beth a barodd
I rai bregethu 'mas,
Y dylid eu henwaedu,
A * chwympo oddiwrth ras. * *Gal.* 5, 4.

PEN. EPHESIAID.

1 AM etholedigaeth Gyflwr,
'R Ephesiaid mae e'n sôn,
2 Trwy ras at Grist y'n dygir:
Ond Llygredd sy'n ein bon,
3 Am alwad y Cenhedloedd,
Dirgelwch gynt yn nghudd,
4 Un Duw sydd yn cyfranu,
Ond amryw ddoniau sydd.

5 Bydded pawb gariadus,
Gochelwch drachwant brwnt,
I'r Gwragedd arch ufudd-dod,
A'r Gwyr eu caru hwynt,

6 Mae'n rhoddi llawn ddesgrifiad
O arfau'r Cristion glew,
I gadw 'i ben heb Glwyfau
A tharo ei elyn draw.

PEN. PHILIPPIAID.

1 PAUL wrth y Philippiaid
Sy'n traethu ei rwymau blin,
2 Yn ol esampl Iesu
Mae'n erchi byw'n gytun.
3 Pob dim mae'n gyfri'n Golled
Yn achos Crist a'i Groes,
4 Mae'n foddlon iawn i'w Gyflwr
Er Goddef llawer loes.

PEN. COLOSSIAID.

1 PAUL rhydd i'r Colossiaid
Bortreiad gwir o Grist,
2 Mae'n erbyn traddodiadau
Ac Ofergoel ddidyst,
3 Gorchymmyn iddynt garu
Y pethau sy' oddi fry,
4 Mae'n deisyf eu Gweddiau;
Anerchion lawer sy'.

## PEN. I. THESSALONIAID.

1 PAUL sydd yn ddiolchgar
Am ffydd y bobl hyn,
2 Pregethai addysg ddidwyll,
Ac athrawiaethau syn,
3 Fe ddengys faint o Gariad
Yn eglur iawn dros ben,
4, 5 Dydd barn: ein Dyledswyddau,
Ac felly'n tynu pen.

## PEN. II. THESSALONIAID.

1 AM ffydd a mawr amynedd
Rhydd etto iddynt Glod,
2 O Fab y Golledigaeth
Mae'n rhoddi llawer Nod,
3 Gorchymmyn iddynt gadw
Rhag drwg Gwmpeini'r Fall,
4 Ac yno mae'n diweddu
Ei Lythyr fel y llall.

## PEN. I. TIMOTHEUS.

1 AM ddefnydd a dybenion
Y Gyfraith d'wed yn awr,
2 Gweddio dros Frenhinoedd
Sydd yn ddyledswydd fawr.
3 Cynheddfau da escobion
A Diaconiaid pur,
4 Oad yn y dyddiau olaf
Fe ymedy rhai a'r Gwir.

5 Bellach fe'i cynghora
Pa fodd i drin yn gall,
Henafgwyr, Gwragedd Gweddwon,
Na foed i'w Iechyd wall,
6 Pa bethau ddylai wneuthur,
A'u goch'lyd oll o hyd,
Dyledswydd Gwyr sy' berchen
Mawr Olud yn y Byd.

## PEN. II. TIMOTHEUS.

1 BYDDED iddo gofio
Ail ennyn rhoddiad Duw,

2 A bod yn ddianwadal,
A ffyddlon tra fo byw,
3 Bydd yn y dyddiau olaf
Amseroedd enbyd iawn.
4 Tydi gwna waith Gweinidog.
Pregetha'r Gair yn llawn.

PEN. TITUS.

1 BETH yw cynheddfau 'Glwyswyr,
Pa fodd y dylent fyw,
2 Dyledswydd Hen a Ieuaingc,
Er rhyngu bodd i Dduw,
3 Pa beth na ddylai ddysgu,
A pheth a ddysgai'n iawn,
Yn y tair pennod yma
Mae genym hanes lawn

PEN. PHILEMON.

1 FFYDD dda a chariad gwresog
Philemon dduwiol ddawn,
Sy'n peri i Paul grechwenu,
A bod yn llawen iawn;
Mae'n deisyf arno dderbyn
Onesimus ei was,
Ato'n ol drachefn,
A'i gym'ryd yn ei ras.

PEN. HEBREAID.

1 AWDURDOD yr Epistol
Sy'n profi Crist yn Dduw,
2 Had Abr'am a gymmerodd,
Bu ar y Ddae'r yn byw,
3 Fel y mae'n fwy na Moses
Rhaid ei addoli ef,
4 Mae'n paratoi Gorphwysfa
I'r Seintiau yn y Nef.
5 Bu Offeiriadaeth Iesu
Yn rhogori Lefi a'i lwyth
6 Duw cywir ei addewid,
I Abra'm * talodd bwyth,
7 Yn ol Urdd Melchizedec,
Mae fe'n Offeiriad ffraeth,

* *Gan ei fendithio.*

8 Ond Offeiriadaeth Aaron
Diflanu chwip a wnaeth.
9 Crist a'i waed rhagorodd
Ar bob Aberthau i gyd,
10 Efe offrymwyd unwaith
Yn iawn dros bawb o'r byd,
11 Mae e'n son am ffydd ragorol
Y Patriarchiaid Glân,
12 Rhedwn bawb yr yrfa
Osododd Crist o'n blaen.
13 Parhaed brawdgarwch ffyddlon
I'n Plith ni fawr a man.

PEN. IAGO.

1 IAGO mewn blinderau
Sy'n erchi llawenhau;
2 Nid yw ein ffydd ond diffrwyth,
Heb Weithred i'w chwblhau,
3 Y Tafod Aelod fychan
Sy'n ffrostio pethau mawr,
4 Rhyfela yn erbyn Trachwant
A ddylem bawb yn awr,
5 Chwi, Gyfoethogion, ofnwch,
Nesau mae'r dydd a'r awr.

PEN. I. PEDR.

1 PEDR sy'n cynghori
I bawb yn Sanctaidd fyw
2 Ac ufuddhau'r Swyddogion,
O ran Gorchymmyn Duw,
3 Dyledswydd Gwyr yw barchu,
A'r Gwragedd ufuddhau,
4 Gwiliwn a Gweddiwn,
Mae'r Diwedd yn nesau,
5 Gorchymmyn i'r Henuriaid
I borthi'r Praidd heb lai.

PEN. II. PEDR.

1 ARCH i ni wneuthur allan
Ein Galwad bawb yn siwr,

2 Daw gau athrawon ffeilston
Heb gadw fawr o 'stwr,
3 Daw Crist i'r Farn yn sicr
'Nol gwir addewid Duw,
4 Yn mha sanctaidd Ymarweddiad
Gan hyny dylem fyw.

## PEN. I. IOAN.

1 IO'N sy'n d'weyd fod i ni
Gymdeithas gydâ Duw.
2 Mae'n d'weyd wrth Hen ac Ieuangc
Pa fodd y dylent fyw.
3 Cadwn ei Orch'mynion,
A Charwn bawb yn bur.
4 Profwn yr Ysbrydoedd
A yw eu Geiriau'n wir
5 Os carwn Dduw, gwnawn 'archo
Tra fo'm ni ar y Tir.

## PEN. II. IOAN.

1 IO'N sydd yn 'sgrifenu
At ryw Arglwyddes wiw.
A'i phlant urddasol hefyd
Am rodio'n ofn Duw;
Barhau mewn ffydd ddiysgog
A charu'r naill y llall,
A goch'lyd twyll'wyr ffeilston
Sy'n ceisio arnynt wall.

## PEN. III. IOAN.

1 IO'N sy'n rhoi Canmoliaeth
I Gaius weddus fwyn,
Am dan ei Garedigrwydd;
Ond y mae'n gwneuthur cwyn
Am Uchder Diotrephes,
Gwr angharedig blin.
Gair da sydd i Ddemetrius
Gan bawb, a'r Gwir ei hun.

PEN. JUDAS.

1 JUDAS sy'n ein hannog
Broffesu'r Ffydd yn lew,
Gochelyd gau Athrawon
Sy'n rhodio yma a thraw;
Daw Dialeddau Creulon
Ar benau'r cyfryw rai,
Ond Bendith ar y Seintiau
Sy'n cadw rhag eu Bai.

PEN. DADGUDDIAD.

1 AT saith Eglwysi Asia
Y mae Dadguddiad Io'n
2 Am bedair o Eglwysi
Y mae fe yma'n sôn.
3 Wrth y tair arall etto
Mae'n traethu pethau mawr:
4 Henuriaid sydd yn taflu
Eu gwych Goronau lawr.

5 Bu wiw gan Grist gymmeryd
Y Llyfr a'i saith Sel:
6 Y Seliau a gorwyd,
A'r hyn ddygwyddodd—gwel.
7 Gwas'naethwyr Duw a selir;
O Israel nifer fawr,
8 Udganodd pedwar Udgorn
Daeth Pläau mawr i lawr,

9 Cyfarfod wnawn ni nesaf
A Seren syrthiai o'r Nef.
10 Ioan yn Bwyta'r Llyfr
A ddugpwyd ato ef:
11 Dau dyst sydd yn prophwydo,
Yr Udgorn ola'i Wae
12 Gwraig a'r haul yn wisgad
A'r blentyn esgor Wnae.

13 Deg corn a saith o benau
Gan fwystfil ddaeth i dir.
14 Yr Oen ar fynydd Sion
A chanddo lu o wyr
15 Saith pla gan y saith Angel:
Phiolau llid Duw mawr,

16 Y rhai dywalldwyd allan
I'r ddaeren hon i lawr.
17 Eisteddodd ar y bwystfil
Y butain—Babilon:
18 Ond daw ei chwymp o'r diwedd,
A barnau Duw ar hon.
19 Duw a ogoneddir:
Priodas wych yr Oen.
20 Y diawl yn cael ei rwymo,
A'i roi mewn mwy o boen.

21 Fe welodd Io'n yn olaf
Yn newydd iawn bob peth,
Y Nefoedd a Chaersalem,
A'r ddaear faith heb feth.

22 Y mae'n diweddu ei eiriau
Ac yn melldithio'n blain,
Y rhai sydd yn 'chwanegu,
Neu'n tynu oddiwrth y rhai'n.

## Y Deg Gorchymmyn.

Y RHAI'N yw'r deddfau roddodd Duw
Gwna hwynt trwy ffydd yn Nghrist, cei fyw.

NA foed un Duw it' ond myfi.
I eulun 'chwaith na ymgryma di,
Rho barch bob pryd i enw Duw.
Na 'loga'r Sabbath, sanctaidd yw,
Anrhydedd rho i'th dad a'th fam.
Na fwrddra neb, mae hyny'n gam:
Ymgadw rhag godineb cas.
A gochel ledrad, llef anr-ras.
Na thystia ar gam, can's drwg yw'r gwaith.
A bio th frawd na chwennych 'chwaith.

DIWEDD.